**Cynllun Blynyddol Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg**

# Cylchlythyr

## Yn y rhifyn hwn:


- Lansio Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- Cyhoeddwyd AYP
- Hyfforddiant ar Adolygu Ymarfer Plant ac Oedolion Ionawr 2020
- Diwrnod Datblygu Chwefror 2020
- Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2019
- Digwyddiadau i ddod


## Gweithdrefnau Diogelu Cymru Wales Safeguarding Procedures

Lansiwyd Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn ystod yr wythnos Ddiogelu Genedlaethol ddydd Llun 11Tachwedd yng Nghaerdydd a dydd Iau 14 Tachwedd yn y Rhyl. Agorwyd y lansiad gan y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan ac roedd y siaradwyr yn cynnwys yr Athro Emeritws Jan Horwath a ysgrifennodd y gweithdrefnau, Lance Carver cadeirydd Bwrdd y Project, Alys Jones a Natasha James arweinydd y project, Dr Sarah Whitcombe-Hayes o'r NSPCC a Steve Bartley a gyflwynodd farn y comisiynydd pobl hŷn.

Mae'r gweithdrefnau newydd yn dilyn fformat digidol a gellir eu gweld neu eu lawrlwytho fel app drwy chwilio am *'Gweithdrefnau Diogelu Cymru'* yn y siop apiau ar eich ffôn symudol. Gan fod y gweithdrefnau'n rhai digidol, byddant yn cael eu diweddaru pan fo polisïau newydd yn cael eu gweithredu sy'n effeithio arnynt.

Datblygwyd y gweithdrefnau newydd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth a byddant yn disodli'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan cyfredol a pholisi a gweithdrefnau interim Cymru ar gyfer amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed rhag camdriniaeth. Byddant yn sicrhau arfer cyson ar draws pob rhanbarth yng Nghymru ac yn cynnwys llais y plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg ac maent wedi eu cynllunio i fod yn hawdd eu defnyddio.

10 Cafodd Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer diogelu plant eu datblygu law yn llaw â'r gweithdrefnau newydd.

Mabwysiadodd Byrddau Diogelu Caerdydd a Bro Morgannwg y Gweithdrefnau yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2019. Caiff hyfforddiant ei gyflwyno. Datblygwyd 'Dod â'r newyddion diweddaraf i chi', diweddariad ar

## Adolygiad Ymarfer Plant 01/2014

Mae'r adroddiad ar gyfer Adolygiad Arfer Plant 01/2014 ar fin cael ei gyhoeddi.
Bydd copi o'r adroddiad ar gael ar y wefan pan gaiff ei gyhoeddi.
Bydd gwybodaeth am brif ddysgu a phwyntiau gweithredu yn cael ei dosbarthu i ymarferwyr o fewn eu sefydliad unigol.

## Hyfforddiant Adolygu Ymarfer Plant ac Oedolion Ionawr 2020

Comisiynodd BDRh Caerdydd a'r Fro Barbara Firth i gyflawni'r Hyfforddiant uchod ar gyfer ymarferwyr o ystod o asiantaethau.

Cynhaliwyd yr hyfforddiant hwn dros ddau ddiwrnod a'r nod oedd gwella sgiliau ein hymarferwyr er mwyn gallu cynnal proses Adolygu Ymarfer Plant ac Oedolion effeithiol yn ein hardal.

Daeth Barbara Firth i Gaerdydd i rannu ei gwybodaeth a'i sgiliau ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion a chafodd yr hyfforddiant hwn dderbyniad anhygoel o dda.

Gadawodd ymarferwyr yn teimlo'n hyderus a gyda rhagor o sgiliau wrth ymgymryd â rôl Adolygydd neu Gadeirydd ac roeddent yn angerddol dros wneud y gwaith gorau.

Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys nifer o wahanol agweddau (ymarferol a damcaniaethol) gan alluogi ymarferwyr i ddefnyddio eu harbenigedd a'u sgiliau trosglwyddadwy a'u rhoi ar waith yn y broses.

Y gobaith yw y bydd Barbara yn dychwelyd i'r rhanbarth i gynnig rhagor o sesiynau i alluogi ymarferwyr i ddod yn hyfforddwyr ac dod â chronfa o ymarferwyr profiadol i'r Bwrdd i ymgymryd â'r gwaith hanfodol hwn.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu Barbara yn ôl i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a hoffem

## 11 Chwefror 2020

## Cyfle i ni fyfyrio a symud ymlaen!

## Paratoi ar gyfer Diwrnod Datblygu BDRh Caerdydd a'r Fro 2020

Cynhelir Diwrnod Datblygu Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg ar 11 Chwefror 2020 yn Future Inn Caerdydd. Prif bwyslais y diwrnod fydd myfyrio ar brif gyflawniadau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac ystyried beth fydd eu prif flaenoriaethau ar gyfer eu Cynllun Blynyddol 2020/21

Bydd cyfle hefyd i'r Bwrdd ystyried y prif themâu sydd wedi codi o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion a gyhoeddwyd yn ystod 2019/20 er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau i arferion yn y dyfodol.

Cynhelir sesiynau gweithdy yn ystod y prynhawn gyda'r nod o adolygu aelodaeth yr is-grwpiau a'r trefniadau llywodraethu, a mireinio a chadarnhau'r hyn y dylai eu prif ddibenion a'u swyddogaethau fod.

## Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2019

## 11-15 Tachwedd

Cynhaliwyd Wythnos Genedlaethol Ddiogelu ar 11-15 Tachwedd eleni. Cynhaliodd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro raglen o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth llwyddiannus ledled y rhanbarth, wedi'u hanelu at weithwyr proffesiynol a phobl yn y gymuned. Roedd y themâu lleol ar gam-drin domestig a throseddau cyllell/diwylliannau gangiau.

Dechreuodd yr wythnos gyda **Lansiad Gweithdrefnau Diogelu Cymru** a gynhaliwyd ddydd Llun 11 Tachwedd yn y Deml Heddwch, yng Nghaerdydd ac fe'i hagorwyd gan Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. *(Gweler yr erthygl uchod am fanylion pellach ar y lansiad).*

Cynhaliwyd **Cynhadledd Plant a Phobl Ifanc Flynyddol** ddydd Mercher 13 Tachwedd yn Motorpoint Arena, gyda disgyblion o flynyddoedd 7-9 o ysgolion uwchradd Caerdydd a'r Fro. Agorwyd y gynhadledd gan Karen Minton o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ac roedd yn canolbwyntio ar droseddau cyllyll, diwylliannau gangiau a cham-drin domestig ymysg pobl ifanc. Cafwyd prif gyflwyniad gan gwmni Junior Smart o St. Giles ar 'Llinellau Cyffuriau a Gangiau' Cyflwynodd grŵp ffocws pobl ifanc ffilm hefyd, yr oeddent yn ei chyfarwyddo a'i chynhyrchu, yn hyrwyddo gwaith y Bwrdd Diogelu ac yn amlinellu'r gwaith y maent yn ymwneud ag ef ar hyn o bryd, wrth lunio fframwaith ar sut i ymgorffori ymgysylltiad/cyfranogiad pobl ifanc yng ngwaith y Bwrdd Diogelu. Cynhaliwyd nifer o weithdai rhyngweithiol hefyd. Daeth sesiwn y prynhawn i ben gyda drama yn yr ystafell ddosbarth, a berfformiwyd gan ddau actor proffesiynol, o'r enw *'Choice of a Lifetime',* yn canolbwyntio ar beryglon cario cyllell ac a ddilynwyd gan weithdy wedi'i hwyluso yn trafod y themâu a amlygwyd yn y ddrama. Roedd y ddrama yn berfformiad grymus, a gafodd dderbyniad da gan y disgyblion a'r staff oedd yn bresennol.

Cynhaliwyd **Gweithdy Cam-drin Domestig** ddydd Iau 14 Tachwedd, ar gyfer ymarferwyr aml-asiantaeth yn Neuadd MEMO yn y Barri. Cafwyd anerchiad agoriadol gan Christine Grimshaw o dîm VAWSDAV Llywodraeth Cymru ac roedd yn canolbwyntio ar nifer o astudiaethau achos gan edrych ar ymarfer myfyriol.

Ddydd Gwener 15 Tachwedd, cynhaliwyd **Cynhadledd Gweithwyr Proffesiynol** yn Neuadd y MEMO yn y Barri. Cafwyd nifer o gyflwyniadau gwych yn unol â thema cam-drin domestig ac roeddent hefyd yn cynnwys straeon grymus ac emosiynol gan oroeswyr ac ymgyrchwyr cam-drin domestig.

Fel diweddglo teilwng i'r wythnos, cynhaliwyd **Seremoni Gwobrau Cydnabod Diogelu** yng Nghlwb Rygbi'r Eglwys Newydd. Agorwyd y seremoni gan Claire Marchant, Cyd-Gadeirydd Byrddau Diogelu Caerdydd a'r Fro. Cyflwynwyd gwobrau gan westeion arbennig, y Prif Uwch-arolygydd Steve Jones, y Cynghorwyr Graham Hinchey, a Susan Unmore o Gyngor Caerdydd a'r Cynghorydd Ben Grey o Fro Morgannwg. Roedd y seremoni'n gyfle gwych i ddathlu toreth o gyfraniadau rhagorol at ddiogelu mewn cyd-destun aml-asiantaeth a hefyd i gydnabod y rhai sydd wedi cael effaith go iawn ar fywydau pobl.

Hoffai Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ddiolch i bawb a helpodd i wneud digwyddiadau'r wythnos mor llwyddiannus.

## DIGWYDDIADAU/CYFARFODYDD SYDD AR Y GORWEL:

11 Chwefror – Diwrnod Datblygu BDRh

13 Chwefror - Cynhadledd Ddiogelu Genedlaethol - Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Oedolion

31 Mawrth - Cyhoeddi Cynllun Blynyddol

30 Ebrill - Prif Gyfarfod Bwrdd BDPRh a BRhDO

## CYSYLLTWCH Â NI AR:

www.cardiffandvalersb.co.uk